



Adnabod



Tyfu



Gyda'n Gilydd - Taflen Gymorth



Cwestiynau/Awgrymiadau

Beth rydym yn ceisio ei gyflawni

LLESIANT

- Sut ydych chi?
- Rydym yn cydnabod bod hwn yn gyfnod heriol ac unigryw. Sut y gallwn ni gefnogi eich llesiant ar hyn o bryd?
- Sut y mae'r trefniadau gweithio presennol yn gweddu i chi? Beth yw'r manteision? Ydych chi'n wynebu unrhyw heriau y gallwn ni eich cynorthwyo â nhw?
- Mae gan y Cyngor nifer o fentrau llesiant i gefnogi staff (cyfeiriwch at y grynodedd ar y fewnwyd).



Gwnewch nodyn o'r mesurau cymorth y cytunwyd arnynt er mwyn cynnal trafodaethau dilynol.

Trin y cydweithiwr fel aelod o'r tîm sy'n cael ei werthfawrogi

- Gofyn am lesiant cyffredinol y gweithiwr.
- Archwilio opsiynau cymorth.
- Rhannu gwybodaeth â'r staff am fentrau a allai fod o gymorth.

CYDNABOD CRYFDERAU

- Rhoi gwybod sut y mae tasgau'r gweithiwr yn cyfrannu at y tîm a'r gwasanaeth.
- Trafod pryd rydych wedi gweld y gweithiwr ar ei orau.
- Gofyn pryd y mae'r gweithiwr wedi teimlo ar ei orau yn y gwaith/pan mae'n teimlo'n fyw, yn cael ei werthfawrogi ac yn teimlo'n dda am yr hyn y mae'n ei wneud. Beth oedd yn digwydd? Beth oedd ynghylch y sefyllfa honno oedd wedi eich helpu i deimlo yn y modd hwnnw?



Gwnewch nodyn o rai prif gryfderau, er enghraifft sgiliau, ymddygiad neu'r ddau.

Adfyfrio

- Deall pam a sut y mae swydd y gweithiwr yn cael ei gwerthfawrogi ac yn werth chweil.
- Adborth cadarnhaol gan reolwr.
- Deall beth yw ystyr 'da' i'r gweithiwr, a'r hyn sydd yn ei ysgogi.



Adnabod



Tyfu



Gyda'n Gilydd - Taflen Gymorth



Cwestiynau/Awgrymiadau

DATBLYGU EIN GWASANAETH

- Beth rydym wedi'i wneud yn dda fel tîm/gwasanaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf/yn ystod y cyfnod heriol hwn?

- Sut y gallwn wneud pethau hyd yn oed yn well i'n cwsmeriaid?

Gwnewch nodyn o syniadau'r gweithiwr am wella'r gwasanaeth. Gall y syniadau fod yn fach (er enghraifft atgyweirio offer sydd wedi torri) neu'n fawr (er enghraifft newid y modd rydym yn gwneud pethau).



FY NATBLYGIAD

- Beth sydd wedi gweithio'n dda ichi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf/y cyfnod heriol hwn?
- Pa heriau rydych chi wedi eu goresgyn? Sut oedd hynny wedi gwneud ichi deimlo?
- Er mwyn adeiladu ar hyn, beth ydych chi am barhau ei wneud, gwneud mwy ohono, neu wneud yn wahanol? Beth yw'r ffordd orau o gyflawni hyn yn eich barn chi?
- Sut yr hoffech ddatblygu yn eich rôl?
- Oes gennych unrhyw feysydd tymor hir yr hoffech ganolbwyntio arnynt (dyheadau gyrfaol)?

Gwnewch nodyn ynghylch nod tymor byr a nod tymor hir.



Beth rydym yn ceisio ei gyflawni

Syniadau ar gyfer y gwasanaeth (dangos creadigrwydd)

- Mynd ati i chwilio am syniadau i wella'r gwasanaeth.
- Mae hyn yn atgyfnerthu'r syniad mai nod arfarniadau yw datblygu rhagoriaeth er budd y gwasanaeth a'r cwsmeriaid / trigolion.

Dyheadau personol a phroffesiynol

- Adlewyrchu ar yr hyn oedd wedi gweithio'n dda a pham.
- Beth yw ystyr 'rhagoriaeth' i'r gweithiwr?
- Dylai'r gweithiwr nodi'r datblygiad sydd ei angen.
- Gall datblygu olygu mestrolï sgîl neu gael rhagor o foddhad â'r gwaith (nid cael dyrchafiad yn unig).



Adnabod



Tyfu



Gyda'n Gilydd - Taflen Gymorth



Cwestiynau/Awgrymiadau

Beth rydym yn ceisio ei gyflawni

UN TÎM

- Pa adnoddau/cymorth sydd gennych eisoes i helpu i gyflawni eich syniadau o ran gwella'n bersonol a gwella'r gwasanaeth?
- Pa gymorth/adnoddau sydd eu hangen arnoch?



Creu cynllun gyda'ch gilydd, a gwneud gwell defnydd o adnoddau presennol.

Creu cynllun

- Ystyried ffyrdd o wneud gwell defnydd o adnoddau presennol.
- Ystyried yr hyn sydd angen bod ar waith i gefnogi'r gwaith o ddatblygu.

CYMRYD CYFRIFOLDEB

- Pa gam gweithredu y gallwch ei gymryd nawr i ddechrau rhoi eich syniadau ar waith?
- Beth sydd angen inni ei wneud i sicrhau bod eich syniadau'n parhau?



Gwnewch nodyn o gamau gweithredu penodol er mwyn rhoi pethau ar waith a pharhau â'r gwaith.

Creu cynlluniau

- Cynllun Cynaliadwyedd – sut i ddechrau a dal ati.

